Prif nôd prosiect CYTGORD yw i astudio a dadansoddi y Bwlch Cyflog rhwng menywod a dynion yng Nghymru. Mae menywod yng Nghymru yn dal i gael eu trin fel dinasyddion eilradd wrth ystyried cyflogaeth, a nôd ein prosiect yw i daclo y gwahaniaeth trwy weithio gyda nifer o gwmniau a mudiadau trwy gydol Cymru., Prydain ac Ewrop fel y gallwn gasglu'r wybodaeth ar faterion cyflogaeth a'r rhesymau dros y gwahaniad rhyw fel y gallwn gynnig arweiniad , canllawiau a datblygu modelau o arfer da er mwyn llehau y bwlch cyflog sydd yng Nghymru.

Bydd natur mater y bwlch cyflog yng Nghymru yn cael ei astudio trwy ddilyn yr amcanion canlynol:

- Edrych ar hanes a chefndir y bwlch cyflog a chydraddoldeb rhyw.
- Fformiwleiddio cydweithio yng Nghymru ar faterion bwlch cyflog rhwng menywod a dynion a stereoteipio rhyw yn y farchnad lafur.
- Astudio yr hyrwyddiad a'r gweithgareddau o gyfraniad economaidd menywod.
- Edrych ar ganllawiau ymarferol ar gyfer prif ffrydio.
- Astudio esiamplau o weddill Prydain ac Ewrop

Bydd y canlyniadau a geir o fudd i nifer o bobl, gan gynnwys:

- Cyflogwyr
- Darparwyr hyfforddiant ac addysg
- Gwneuthirwyr polisi ym mhob sector
- menywod
- menywod a dynion sydd yn rieni sengl

Bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddu a'i dosbarthu i sicrhau fod y gwaith yn cael ei gynnal trwy annog unigolion a mudiadau i ddefnyddio arfer da a mabwysiadu gweithredu'n bositif ar gyfer prif ffrydio.

Bydd y canlyniadau hefyd ar gael ar wefanau perthnasol a'i dosbarthu trwy rwydweithiau gwahanol gan gynnwys y rhwydwaith UK/Irish yn ogystal ag ar wahanol wefanau UE er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor eang a phosib.

Er fod tyfiant y menywod yn yr economi Gymreig yn galonogol a bod cydraddoldeb ar y cyfan wedi gwella trwy weithredoedd gwahanol ac arfer da mae'r bwlch cyflog dal yn bodoli yng Nghymru. Ein nôd ni fel cwmni yw i adnabod, mesur a helpu i ddelio a'r mater o fwlch cyflog yng Nghymru ac i rannu modelau arfer da trwy gydol Cymru, Prydain ac Ewrop.